Celf Blwyddyn 10 RhDd3 – Gwaith Cwrs TGAU

Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:

Sgiliau: Bydd y myfyrwyr yn:

- Datblygu sgiliau wrth ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a thechnegau (AA2) cyn datblygu eu thema eu hunain o ymchwilio iddo ac yna creu eu gwaith celf eu hunain yn seiliedig arno.
- Ymateb i waith yr artist y maent wedi ymchwilio iddo yn ysgrifenedig (AA1) ac yn weledol (AA2).
- Archwilio cyfryngau sy'n berthnasol i'w thema a'r artist y maent wedi ymchwilio iddo (AA2)
- Meddwl am syniadau ar gyfer eu thema ddewisol a datblygu'r syniadau hynny drwy gyfrwng brasluniau, lluniadau arsylwadol, ffotograffau ac anodiadau (AA3)
- Creu gwaith celf yn seiliedig ar eu syniadau eu hunain ac ymchwiliadau annibynnol, defnyddio cyfryngau mewn modd medrus a chywrain i greu gwaith celf personol, llawn ystyr. (AA4)

Gwybodaeth: Bydd y myfyrwyr yn datblygu gwybodaeth o'r canlynol:

- Yr artist y maent wedi dewis ei astudio, defnydd yr artist hwnnw o gyfryngau a'r cysyniadau sydd wrth wraidd y gwaith celf. Bydd hyn yn eu helpu i ddatblygu eu syniadau eu hunain ar gyfer eu thema ddewisol. (AA1)
- Y cyfryngau a'r technegau sydd eu hangen i greu'r gwaith celf y maent yn bwriadu ei greu (AA2)

Dealltwriaeth: Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth o'r Amcanion Asesu (AA) drwy gwblhau'r gwaith paratoi ar gyfer eu hasesiad.

Termau Allweddol:
Amcanion Asesu (AA):
AA1: Dealltwriaeth Gyd-destunol:
AA2: Gwneud Creadigol:
AA3: Cofnodi Myfyriol:
AA4 : Cyflwyno Personol:

RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 1:
Cyflwyniad i'r cwrs. Cyflwyno'r thema Hunaniaeth. Dangos enghreifftiau.
***Bydd y myfyrwyr yn gallu* lluniadu gan ddefnyddio llinellau, marciau/gwead a thôn:**
Datblygu sgiliau lluniadu – Atgyfnerthu sgiliau lluniadu. Bydd y myfyrwyr yn creu ystod o luniau arsylwadol i wella eu sgiliau lluniadu fel eu bod yn dod yn fwy rhwydd. (Bydd **llun** yn cael ei gymryd o'r myfyriwr ar gyfer ei hunanbortread)

Meini prawf llwyddiant:
Bydd y myfyrwyr yn astudio 4+ techneg lluniadu ac yn creu tudalen archwilio a fydd yn cynnwys gwaith arsylwadol.

Gwaith cartref
Gwaith Cartref: O leiaf 1 awr bob wythnos.
I'w gyflwyno'r wythnos ddilynol.
2 dudalen o samplau marcio a graddfeydd tonyddol mewn pensil a beiro ddu neu 'fineliner'. Dewch â 'hun-lun'; ('selfie').

RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 2:
***Bydd y myfyrwyr yn gallu* Datblygu sgiliau lluniadu – llinellau, marciau a thôn.**
Cyflwyniad i'r thema 'hunaniaeth', sy'n canolbwyntio ar greu hunanbortread fel darn cyntaf. Bydd y myfyrwyr yn edrych ar amrywiaeth o bortreadau, yn enwedig gwaith Loui Jover, ac yn dadansoddi'r defnydd o linellau, marciau neu wead a thôn ac yna'n creu tudalen archwilio artist.

Meini prawf llwyddiant:
Tudalen archwilio llinellau, marciau a thôn. Cwblhau copi artist – portread ac amrywiol ddulliau teipograffeg.

Gwaith cartref
Casglu delweddau, geiriau, dywediadau, gwrthrychau ac ati sy'n adlewyrchu pwy ydych chi, i'w defnyddio yn eich gwaith.

Asesiad
ACD

RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 3:
***Bydd y myfyrwyr yn gallu* cymhwyso eu gwybodaeth o linellau, gwead a thôn i'w hunanbortread:**
☐ **Asesiad Lluniadu** - Lluniadu hunanbortread maint A3. Defnyddio eich gwybodaeth am linellau, marciau a thôn i ddangos ffurf.

Meini prawf llwyddiant:
Defnyddio cyfrannedd a sgiliau tonyddol wrth greu hunanbortread.

Gwaith cartref
Lluniadu portread mewn beiro gan ddefnyddio'r dechneg gwneud marciau i ddangos tôn.

Gradd:

RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 4:
***Bydd y myfyrwyr yn gallu* defnyddio amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys collage a decoupage, i ychwanegu tôn a lliw at eu gwaith celf:**
☐ **Datblygu technegau mewn gwahanol gyfryngau.** Bydd y myfyrwyr yn arbrofi gydag amrywiaeth o gyfryngau i ychwanegu lliw a thôn at eu hunanbortread a'r cefndir - pasteli olew, 'fineliner', pensiliau lliw, dyfrlliwiau, inc, collage ac ati.

Meini prawf llwyddiant:
Bydd y myfyrwyr yn ychwanegu at eu hunanbortreadau gan ddefnyddio o leiaf 3 dull gwahanol i greu gwaith amlgyfrwng/collage.

Asesiad

RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 5a6:
***Bydd y myfyrwyr yn gallu* paentio gyda phaent acrylig i greu gwahanol liwiau a thonau:**
☐ **Datblygu technegau paentio. Cyflwyniad i baent acrylig.** Bydd y myfyrwyr yn arbrofi gyda chymysgu lliwiau a thôn.
ASESIAD CRYNODOL – Marc /30 ar gyfer pob AA (Gweler y daflen Amcanion Asesu) ar gyfer y gwaith sydd wedi'i gwblhau hyd yma. Bydd y marc hwn yn cael ei droi'n radd.

Gradd:

AC

Meini prawf llwyddiant:
Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio technegau paentio; cymysgu lliwiau a'u hychwanegu at eu hunanbortreadau

Gwaith cartref
Casglu delweddau a gwybodaeth am yr artist Loui Jover.
***Bydd y myfyrwyr yn cymhwyso sgiliau dealltwriaeth gyd-destunol wrth greu ymateb soffistigedig i waith artist*:**
☐ Cwblhau tudalen ymateb i waith yr artist Loui Jover

Gwaith cartref – Gwaith cwrs:
☐ **Map meddwl 'hunaniaeth':** Creu map meddwl yn seiliedig ar y thema 'hunaniaeth'. Dylech gynnwys lluniau a geiriau. Gallwch gynnwys delweddau 'collage' a ffotograffau ar yr amod eich bod yn eu cyflwyno'n dda – gallech ymgorffori'r rhain yn eich gwaith lluniadu eich hun trwy luniadu drostynt. Ceisiwch gynnwys yr holl gyfryngau yr ydych wedi eu defnyddio hyd yma mewn rhyw ffordd. Meddyliwch am gyflwyniad y gwaith – defnyddio llinellau, marciau a thôn yn ofalus ym mhob cyfrwng.
☐ **Llyfr braslunio:** O leiaf un lluniad arsylwadol o ansawdd da o dirwedd/adeilad.
☐ Cymryd **ffotograffau** ar gyfer y thema 'hunaniaeth' - o leiaf 10 ffotograff o ansawdd da o'ch tirwedd leol, gan gynnwys saethiadau agos a manwl o adeiladau lleol. Argraffwch y ffotograffau a dewch â nhw gyda chi i'r ysgol.